

Deddfu dros yr iaith

Ar 27 Gorffennaf, wedi pwyso dyfal, daeth Mesur yr Iaith Gymraeg yn ddeddf.

Daeth y ddeddf yn sgil adroddiad pwyllgor Syr David Hughes-Parry, a gyhoeddwyd yn 1965, ond a sefydlwyd yn 1963, i ymchwilio i statws y Gymraeg. Yr oedd Hughes-Parry a'i gyd-bwyllgorwyr wedi datgan o blaid 'dilysrwydd cyfartal' i'r Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru.

Ymgorfforwyd yn y ddeddf yr egwyddor y câi'r Gymraeg ei defnyddio yn y llysoedd ar yr un sail â'r Saesneg, ac y câi pob person mewn achos llys yng Nghymru ddefnyddio'r Gymraeg fel y mynnai. Yr oedd adnoddau i'w paratoi hefyd i drosi dogfennau swyddogol i'r Gymraeg, er mewn unrhyw achos o anghysondeb rhwng y fersiwn Saesneg a'r un Cymraeg, yr un Saesneg fyddai'r fersiwn swyddogol. Yn wahanol i Ddeddf Llysoedd Cymru 1942, ni fyddai angen profi bellach fod rhywun 'dan anfantais' o orfod siarad Saesneg yn y llys cyn iddo gael caniatâd i siarad Cymraeg.

Yr oedd Deddf yr Iaith Gymraeg i gryn raddau yn ymateb i'r pwysau cynyddol er 1963 gan aelodau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, a fu'n arfer amrywiaeth o dactegau cyfreithlon ac anghyfreithlon yn eu brwydr dros well triniaeth i'r Gymraeg a'r rhai â'i siaradai.

Yr Ieti yn Nant Ffrancon



Yr Ieti yn Eryri.

Daeth *Dr. Who*, y teithiwr enwog trwy amser a gofod, i Nant Ffrancon ym mis Medi, pan ffilmwyd pennod o gyfres deledu boblogaidd y BBC yno. Stori am y bwystfil chwedlonol yr Ieti a ddaeth â'r criw ffilmio i ogledd Cymru i chwilio am dirwedd tebyg i Fynyddoedd Himalaia, cynefin naturiol y Dyn Eira Dychrynlyd.

Astudio'r Emyn

Mewn cyfarfod ar 10 Awst yn y Bala, sefydlwyd Cymdeithas Emynau Cymru i hybu diddordeb yn emynau ac emynwyr y Gymraeg, dan ei Llywydd cyntaf, y Llyfrgellydd Cenedlaethol, E.D. Jones.

'Y mae ein hemynau, at ei gilydd', meddai'r Parch. Gomer M. Roberts yn y cyfarfod sefydlu, 'yn drysor nid yn unig o ran eu gwerth defosiynol i'r eglwysi, ond fel llenyddiaeth o'r radd flaenaf. Fe ddaeth yr amser, mi gredaf, i ffurfio cymdeithas i astudio ac i noddi'r emyn Cymraeg.'

Cyngor y Nawdd

Ar 9 Chwefror, sefydlwyd Cyngor y Celfyddydau o dan ei Gadeirydd cyntaf, yr Athro Gwyn Jones, fel y prif gyfrwng ar gyfer dosbarthu nawdd y llywodraeth ganolog i'r celfyddydau o bob math yng Nghymru.

Bu'r Cyngor hyd hynny yn Bwyllgor Cymreig Cyngor Celfyddydau Prydain Fawr. Gwyn Jones fu Cadeirydd y Pwyllgor, ac yna'r Cyngor am ddeng mlynedd nes iddo ymddiswyddo ym mis Mehefin 1977.

Ym mis Ebrill 1994 daeth Cyngor Celfyddydau Cymru yn annibynnol ar Gyngor Celfyddydau Prydain Fawr, o dan Gadeirydd newydd, Syr Richard Lloyd Jones.

O Goedpoeth i'r Congo

dde:

Winnie Davies yn y Congo.

Ar 16 Mehefin yn ninas Kisangani yn y Congo cynhaliwyd angladd y nyrs a'r genhades Winnie Davies o Goed-poeth, ger Wrecsam, 33 mis wedi iddi gael ei chipio a'i chaethiwo gan wrthryfelwyr yn erbyn llywodraeth y wlad. Dilynodd deunaw car ei harch trwy'r strydoedd, safodd plismyn a milwyr i saliwio wrth iddi gael ei chludo heibio, a chanwyd clychau'r Eglwys Gadeiriol Gatholig er cof am y Brotestanes o Gymraes.

Bu Winnie Davies yn gweithio er 1946 fel bydwraig mewn ardal wledig o'r Congo pan herwgipiwyd hi ym mis Gorffennaf 1964



wrth i'r gwrthryfelwyr ymosod ar fferyllfa'r genhadaeth Brotestannaidd ym mhentref Opienge lle gweithiai. Lladdwyd miloedd o bobl y Congo yn y rhyfel cartref gwaedlyd a ymleddid ar y pryd, ac nid cyn Gorffennaf 1965 y clywyd yn sicr fod Winnie Davies yn dal yn fyw. Gyda charcharorion eraill cafodd

ei symud o le i le wrth i'r gwrthryfelwyr ffoi rhag lluoedd y llywodraeth, cyn cael ei llofruddio ar 27 Mai ger Kisangani, ugain munud yn unig cyn i filwyr y llywodraeth ddod i'w hachub hi a'i chydymaith, y Tad Alphonsus Maria Strijbosch, offeiriad Catholig o'r Iseldiroedd.

Gwrthod gradd

Yn seremoni raddio Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, ar 20 Gorffennaf, gwrthododd un myfyriwr, Robert Paul Griffiths, dderbyn ei radd fel protest yn erbyn methiant yr awdurdodau i roi statws i'r iaith Gymraeg yng ngweithgareddau'r coleg. Syfrdanwyd yr ymgynulliad graddio pan gyhoeddodd Griffiths o'r llwyfan nad oedd am dderbyn ei radd 'tra pery'r Brifysgol mor elyniaethus i'r Gymraeg.' Yn ddiweddarach, dan yr enw Robat Gruffudd, daeth y myfyriwr di-radd yn enwog fel perchennog Gwasg y Lolfa.

Campau'r Swans

isod: Chwaraewyr Abertawe yn cofleidio'i gilydd ar ôl i McLaughlin sgorio yn y rownd gynderfynol.



Pur ddyledus i bâr o Wyddelod oedd clwb pêl-droed Abertawe pan ddaeth o fewn trwch blewyn i ennill lle am y tro cyntaf erioed yn rownd derfynol Cwpan Lloegr yn Wembley. Collwyd 2-1 yn y rownd gyn-derfynol ar 14 Mawrth yn erbyn tîm arall o'r Ail Adran, Preston North End, ar ôl i Jimmy McLaughlin roi Abertawe ar y blaen. Roedd y Gwyddel McLaughlin newydd ei brynu o glwb Amwythig am ffi o £16,000, ac roedd wrthi'n profi ei fod yn werth pob ceiniog. Ar gae mwdlyd Parc Villa, McLaughlin dros y Swans a gafodd unig gôl yr hanner cyntaf, ond yn yr ail hanner bu cic gosb ddadleuol ac ergyd ddeugain llath gan Singleton yn ddigon i sicrhau buddugoliaeth yn Preston.

Roedd Abertawe wedi trechu clybiau o'r Adran Gyntaf yn y rowndiau blaenorol, a'r gamp fwyaf oedd curo Lerpwl 2-1 o flaen torf o 47,000 yn Anfield yn rownd yr wyth olaf ar 29 Chwefror. Roedd Abertawe wedi chwarae yn Lerpwl wyth gwaith o'r blaen heb ennill yr un gêm, ond roedd hynny i gyd ar fin newid. Sgoriwyd gôl yr un gan McLaughlin ac Eddie Thomas, ond y golwr Noel Dwyer oedd arwr y gêm. Llwyddodd y Gwyddel lliwgar i arbed holl ergydion y crysau cochion ac eithrio un gan Peter Thompson. Honnodd rheolwr Lerpwl, Bill Shankly, wedyn y dylai ei dîm ef fod wedi rhoi 14 o goliau yng nghefn y rhwyd, ond rhyngddynt hwy a'u targed roedd dwylo diogel Dwyer.



Arwyddion o newid

uchod: Pa le, pa fodd?

Tynnodd papur newydd *Y Cymro* sylw ym mis Mai at arwyddbost rhwng Pentrefoelas a Betws-y-Coed, ar gyrion Eryri, a oedd yn achos dryswch i rai, a dicter mawr i eraill gan nad oedd yr un enw mewn Cymraeg cywir. Cynyddodd galwadau trwy'r '60au am gael yr enw Cymraeg priodol ar y fath arwyddion, yn lle ffurfiau hynafol Seisnigaidd, gyda sawl un yn eu gweld yn sarhad ar y Cymry a'u hiaith.

Ysgogwyd rhai gan eu dicter i fandaleiddio arwyddion, ac wedi methu â pherswadio Cyngor Sir Benfro mai Trefin ac nid Trevine oedd y sillafiad cywir ar enw'r pentref bach a anfarwolwyd yng ngherdd enwog William Crwys Williams, *Melin Trefin*, aeth rhai o aelodau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ati i dynnu'r arwyddion Saesneg i lawr a gosod rhai Cymraeg yn eu lle. Arddangoswyd yr hen arwyddion ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe, lle daeth un o swyddogion yr heddlu i'w casglu.

Drwy'r '60au a'r '70au cynnar difethwyd neu beintiwyd arwyddion uniaith Saesneg ledled Cymru gan gefnogwyr Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, -ymgyrch a arweiniodd at sefydlu'r egwyddor o arwyddion dwyieithog yng Nghymru.

Gormod o ryw i ddyn y Dryw

Ym mis Medi ymddiswyddodd Emlyn Evans, rheolwr cwmni Llyfrau'r Dryw, Llandybie, oherwydd ei fod yn gwrthwynebu penderfyniad y cwmni i gyhoeddi nofel ddadleuol John Rowlands, *Ieuentid yw 'Mhechod*.

Thema'r nofel, a ddyfarnwyd yn ail orau yng nghystadlaethau y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe, oedd gweinidog mewn helbul rywiol, a cheir disgrifiad manwl ohono'n godinebu. Yn ôl beirniadaeth Caradog Prichard yn yr Eisteddfod, 'Ni chafwyd, cyn belled ag y gwn i, erioed yn y Gymraeg ddisgrifiad tebyg, nac yn sicr mo'i ragorach, o'r act rywiol.'

Dros y blynyddoedd canlynol, enillodd John Rowlands enw iddo'i hun nid yn unig fel awdur cyfres o nofelau beiddgar, ond hefyd fel meithrinwr to o lenorion ifanc anturus.

'Welsh Not' Meirionnydd

dde: Protestwyr yn amgylchynu car Brewer-Spinks.

Honnodd *Y Cymro* ar 17 Mehefin fod gwarth y 'Welsh Not' wedi dychwelyd i Feirionnydd, a hynny yn un o ffatrioedd y sir. Penderfyniad gan y cyflogwr o Sais, W. Brewer-Spinks, oedd asgwrn y gynnen, sef penderfyniad i ddiswyddo dau o weithwyr ei ffatri yn Nhanygrisiau am iddynt wrthod roi'r gorau i siarad Cymraeg yn y gwaith.

Roedd Brewer-Spinks wedi gofyn i wyth o'i weithwyr lofnodi dogfen yn addo siarad Saesneg trwy'r amser yn y gwaith. Dim ond dau a wrthododd, Tom Elmer Jones o Flaenau Ffestiniog a Neville Jones o Fanod, a hwythau wedyn yn colli eu swyddi o'r herwydd. Dywedodd Tom Jones ei fod yn gwbl barod i ddefnyddio'r Saesneg wrth ei waith, ond cwynodd fod ei gyflogwr am ei wahardd rhag siarad Cymraeg hyd yn oed yn ystod ei egwyl de. O'i ran ef, dywedodd Brewer-Spinks ei bod yn 'wirioneddol ddrwg' ganddo na fedrai'r Gymraeg a'i fod am ddsygu'r iaith yn fuan, ond yn y cyfamser, Saesneg yn unig a oedd i'w siarad yn ei ffatri ef. Er mwyn i'r ffatri weithio'n effeithlon roedd yn ofynnol i bawb ddisgyblu ei hunain i feddwl yn Saesneg bob amser.

Rhybuddiodd Tom Jones o Shotton,



Ysgrifennydd Gogledd Cymru o Undeb y *T.G.W.U.*, fod yr undeb yn ystyried mynd i gyfraith ar ran y ddau ddyn a ddiswyddwyd, gan ddweud am Brewer-Spinks, 'Mae'r dyn yn chwarae â dymaieit.' Derbyniodd y ddau ddwsinau o lythyron o gefnogaeth, ac ar yr un pryd clywyd fod y chwe dyn a lofnododd yn dal i siarad Cymraeg yn y gwaith er gwaethaf gorchymyn eu cyflogwr.

Gyda'r bore ar 29 Mehefin, daeth dau gant o bobl yr ardal ynghyd y tu allan i'r ffatri gyda baneri a phosteri i roi croeso swnlyd i Brewer-Spinks wrth iddo ddod i'r gwaith. Ni ddaeth yr helynt i ben tan 6 Gorffennaf pan gyfarfu Brewer Spinks i drafod y mater â'r Aelod Seneddol lleol, T.W. Jones, a'r

Ysgrifennydd Gwladol, James Griffiths. Cytunodd y Sais i ddileu'r gorchymyn i beidio â siarad Cymraeg, ond er hyn gwrthododd Tom Elmer Jones a Neville Jones fynd yn ôl i'r gwaith. Hefyd yn gwrthod mynd yn ôl roedd Alan Butterworth, a lofnododd y ddogfen yn wreiddiol, ond a edifarhaodd yn ddiweddarach gan ymddiswyddo ar 7 Gorffennaf.

Lol i gyd ar y Maes

'Ymgais i gael stwff darllen Cymraeg i ieuencid Cymru' oedd disgrifiad y golygydd Penri Jones o'r cylchgrawn dychanol *Lol*, a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol y Drenwydd ym mis Awst mewn storm o drafod a phrotest. Am swllt y tro câi eisteddfodwyr fwynhau sylwadau miniog ar rai o bwysigion y gymdeithas Gymraeg, ynghyd â dogn go fawr o genedlaetholdeb Cymreig a hiwmor y tŷ bach, ac am y tro cyntaf mewn cyhoeddiad Cymraeg, lluniau o ferched noeth. Soniodd rhai am geisio gwahardd y cylchgrawn o'r Maes am ei fod yn anfoesol, ond yn ôl Penri Jones, 'y moesoldeb uchaf yw fod pobl yn ddiragrith', a thanseilio rhagrith y Cymry oedd ei nod ef, meddai.

Dros y blynyddoedd profodd cymysgedd *Lol* o faswedd, dychan a Chymreictod yn boblogaidd iawn gan rai, a byddai sawl yn edrych ymlaen yn fawr at bob Eisteddfod Genedlaethol i weld a ddôl dan lach y Lolwyr. Er hyn, daeth y cylchgrawn ei hun dan lach sawl un, gan gynnwys ymgyrchwyr ffeministaidd a rhai'n teimlo eu bod wedi'u sarhau'n annheg gan *Lol*.

Esgob yr anialwch

Mewn seremoni yn Eglwys y Groes Sanctaidd, Geraldton, daeth y Cymro Howell Witt o Gasnewydd yn Esgob Anglicanaidd talaith eglwysig anferth Gogledd-Orllewin Awstralia.

Ar ôl ei ordeinio'n offeiriad gan Esgob Mynwy yn 1944, ymfudodd Witt i Awstralia yn 1949 i fod yn gaplan Anglicanaidd i filwyr Maes Profi Rocedi Woomera. Cafodd ei ddyrchafu'n esgob bymtheng mlynedd yn ddiweddarach trwy enwebiad rheithor tref Carnarvon, Gorllewin Awstralia. Roedd tiriogaeth yr esgob newydd yn un o dair esgobaeth fwyaf y byd, yn cynnwys tua chwarter tir Awstralia. Byddai Witt yn gorfod teithio am saith mis o'r flwyddyn er mwyn bugeilio ei braidd, gan ennill y llysenw



Yr Esgob Witt gyda'r darlledwr Alan Whicker.

'yr Esgob Hedegog' am ei fod yn treulio cymaint o'i amser yn mynd o le i le mewn awyrennau. Llysenw arall a gafodd oedd y 'Bush Bishop' am ei fod yn esgob ar ardal eang o anialdir canolbarth Awstralia, a defnyddiodd yntau'r enw hwn yn deitl ar ei hunangofiant ffraeth a gyhoeddwyd yn 1979. Bu farw'r esgob yn 1998.